

Maelgwn yng Nghymru: maent angen eich help!

Rydym am wybodaeth oddi wrth bysgotwyr i'n helpu i ddeall, lle gellid dod o hyd i Faelgwn yn nyfroedd Cymru a gwarchod y rhywogaeth hon yn well, gan eu bod mewn Perygl Difrifol. Hefyd mae gan Maelgwn nifer o enwau eraill yn Saesneg sef 'angelsharks' 'monk' ac 'Angel fish'!

Peidiwch â mynd ar ôl Maelgwn

Diogelir maelgwn yn dda yn nyfroedd Cymru ac mae'n anghyfreithlon i fynd ar ôl y rhywogaeth

Dilynwch y canllawiau

Os byddwch yn dal maelgwn yn ddamweiniol, dilynwch y canllawiau ar y dudalen drosodd i'w rhyddhau yn y cyflwr gorau

Adroddwch eich bod wedi eu gweld


Adroddwch eich bod wedi gweld Maelgi wrth sites <http://sites.zsl.org/angelsharks/> neu wrth tom@llynangling.net



Beth yw Maelgi?

Siarc ag iddo gorff fflat yw'r Maelgi (*Squatina squatina*), a gall dyfu i fod yn 2.4 metr o hyd.

Mae'n bwydo ar amrywiaeth o bysgod, cramenogion a molysgiaid, ac mae ganddo rôl bwysig wrth gynnal ecosystem forol gytbwys.



Weithiau'n mae'n cael ei gam-recordio fel morgath oherwydd bod y ddau'n rhannu enw cyffredin yn Saesneg: *Monkfish* neu *Monk*.

Maelgwn Yng Nghymru: pam mae cofnodi yn bwysig?

Roedd maelgwn ar un adeg yn gyffredin ar hyd silff arfordirol a chyfandirol allanol Gogledd-ddwyrain Cefnfor Iwerydd, a Môr Canoldir. Yn dilyn degawdau o leihad mewn nifer, maen nhw wedi diflannu o nifer o'u cynefinoedd blaenorol. Serch hynny, mae cofnodion pobl sydd wedi gweld Maelgwn yng Nghymru yn dangos eu bod yn dal i fod yn bresennol yma, ond mae angen gweithredu ar frys i ddeall yn well faint o faelgwn sy'n defnyddio dyfroedd Cymru a ble mae dod o hyd iddynt.

Sut mae Maelgwn yn cael eu gwarchod yng Nghymru?


- Gwaherddir tarfu'n fwriadol ar, targedu, anafu neu ladd Maelgwn o fewn 12 môr-filltir o arfordiroedd Cymru a Lloegr (Atodlen 5 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981)
- Gwaherddir targedu, cadw, cludo neu lanio Maelgwn yn llongau holl wledydd yr UE a thrydydd gwledydd yn nyfroedd yr UE. Rhaid i bob maelgi >50 kg gael eu cofnodi. (Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 2017/127)



Arweiniad i'r ffordd gorau a diogel o ryddhau Maelgwn a ddalwyd yn ddamweiniol

Er ni ddylid targedu Maelgwn, mae'r arweiniad hyn wedi cael ei ddatblygu gyda physgotwyr er mwyn lleihau'r marwolaethau os cânt eu dal yn ddamweiniol.

1. Dadfachu



Cofnodwch faint a rhyw'r Maelgi. Mae gan faelgwn gwrywaidd ddau gydiwr (atodion hir) y tu ôl i'w hasgell belfig.

Mae'r wybodaeth hon yn ein helpu i ddiogelu'r rhywogaeth.



Triwch ddadfachu'r siarc yn y dŵr bob amser (ar ochr y cwch neu mewn dŵr at eich pen-glin ar yr arfordir). Os oes rhaid i chi dorri'r 'leader', torrwrch ef mor agos at y bachyn ag y bo modd.

I leihau straen ar y siarc gan fod y dŵr yn cynnal ei organau mewnol.

2. Wrth fyrrddio y cwch (DIM OND os oes rhaid)




Os ydych ar gwch ac mae angen i chi lanio'r siarc i'w ddadfachu'n ddiogel, defnyddiwch rwyd lanio fawr i'w godi i'r cwch. Peidiwch byth â defnyddio tryfer.

I gynnal yr organau mewnol a sicrhau nad oes unrhyw niwed yn cael ei achosi.

Gosodwch ef ar arwyneb oer, gwlyb a meddal (e.e. tywel gwlyb). Rhowch dywel (wedi' wlychu gyda dŵr môr) dros y llygaid.


Er mwyn ei gad w'n dawel a di-gyffro.



3. Ei drin (DIM OND os oes rhaid)

Peidiwch byth â dal y Maelgi wrth ei gynffon, ei esgyll neu'r tagellau'n unig. Mae angen i chi gynnal ochr isaf y siarc.


Rheswm: I leihau'r pwysau ar ei organau mewnol a allai arwain at farwolaeth.



4. Rhyddhau


Rhyddhewch y siarc cyn gynted â phosibl ar ôl ei ddadfachu. Gollyngwch y siarc yn ofalus i mewn i'r dŵr gan wynebu'r llanw neu'r tonnau.

Mae hyn yn gorfodi ocsigen drwy ei dagellau er mwyn iddo allu nofio i ffordd yn gyflym.



Tacl pysgota

Defnyddiwch yr offer canlynol i leihau anafiadau i faelgwn os cânt eu dal ar ddamwain



Defnyddiwch fachau pres heb adfach bob amser. Os nad ydynt ar gael, defnyddiwch fachyn arall gyda'r adfach wedi'i wasgu i lawr.

I leihau'r siawns o fachu perfedd fel ei bod yn haws dadfachu'r siarc.



Defnyddiwch lein gref.

I leihau'r tebygolrwydd y bydd y lein yn torri ac atal y siarc rhag llusgo'r gêr ar ei ôl.

5. Adrodd



Rhowch wybod am unrhyw faelgwn y byddwch yn eu dal yn ddamweiniol ar <http://sites.zsl.org/angels sharks/> neu e-bostiwch tom@llynangling.net

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddeall a gwarchod yr anifeiliaid hyn yn well.

